Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Hysbysiad Preifatrwydd
# Hydref 2024

## Taflen wybodaeth

**Blwch gwybodaeth**

Am ragor o gyngor, cysylltwch â'r: Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Data

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Fersiwn: 1.3

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn y ddogfen | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Gorffennaf 2018 | Polisi newydd |
| 1.1 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Hydref 2021 | Gwnaed newidiadau ynghylch darparwyr TG, a darparu gwybodaeth ychwanegol i sicrhau ei bod yn berthnasol i adolygiadau thematig, ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu eraill. Gwnaed newidiadau hefyd yn unol â menter goslef llais. |
| 1.2 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Ionawr 2022 | Gwneud newidiadau ynghylch pryd byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol a chadarnhau nad ydym yn trosglwyddo'ch data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig. |
| 1.3 | Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Data | Hydref 2024 | Diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau i arferion/gweithdrefnau gweithio, gan egluro y gallem drosglwyddo eich data personol y tu allan i'r DU (yn amodol ar amddiffyniad cyfreithiol cyfwerth). Adolygwyd gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfreithwyr i sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol. |

**Asesiad Effaith**

Cynhaliwyd asesiad effaith ac nid ystyrir bod y polisi hwn yn effeithio'n niweidiol ar:

- unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a'r Gymraeg
- cyflawni ein hamcanion strategol a'n cyfraniad at gynaliadwyedd.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


Cyflwyniad 1

I bwy mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol? 2

Beth yw ein hymagwedd at breifatrwydd? 2

Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol? 5

- Unigolion y ceir eu gwybodaeth bersonol yn ystod arolygiad craidd, ymweliad interim, gweithgarwch dilynol neu arolygiad monitro blynyddol, neu ymweliad cyswllt 6
    - Staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant
- Unigolion y ceir eu gwybodaeth bersonol yn ystod neu yn gysylltiedig ag adolygiad thematig neu ymweliad neu alwad ffôn 8
    - Staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant
- Unigolion y ceir eu gwybodaeth bersonol yn ystod neu yn gysylltiedig ag ymgynghoriadau 10
    - Staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant
- Rhanddeiliaid eraill y ceir eu gwybodaeth bersonol wrth gyflawni ein busnes 11
- Dysgwyr yn y sefydliad sy'n cael ymweliad neu yr ydym yn ymgynghori â nhw fel arall wrth gyflawni ein busnes 12
- Pobl sy'n llenwi holiadur arolygu neu sy'n cyflenwi gwybodaeth sy'n berthnasol i un o'n gweithgareddau mewn ffordd arall 14
- Unigolion sy'n gwneud ymholiad, yn rhoi adborth i ni, yn cwyno wrthym neu'n codi mater gyda ni 15
- Unigolion sy'n defnyddio ein gwefan 17
- Unigolion sydd wedi eu cynnwys yn nata Llywodraeth Cymru a gyflenwir i ni 19
- Unigolion sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i ni 20
- Unigolion sy'n mynychu ein digwyddiadau a'n hyfforddiant 22

Pryd byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol? 23

Pryd byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â phobl eraill? 24

- ein partneriaid gwasanaeth 24
- sefydliadau sy'n gysylltiedig â'n gwaith 25
- darparwyr gwasanaethau technoleg gwybodaeth 26
- trydydd partïon eraill 26

Sut rydym yn cadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel? 27

Pa hawliau sydd gennych chi o dan gyfraith diogelu data? 28

Eich hawl i dynnu cydsyniad yn ôl 29

Sut gallwch chi gysylltu â ni 30

Hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 30

## Cyflwyniad

Croeso i hysbysiad preifatrwydd Estyn.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu'r safonau y gellir eu disgwyl gennym pan fyddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol, ynghyd â manylion am sut a phryd y byddwn yn ei chasglu a sut rydym ni'n ei defnyddio.

Mae hefyd yn amlinellu gwybodaeth am ba hawliau sydd gan unigolion mewn perthynas â'u gwybodaeth bersonol o dan gyfraith diogelu data a beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw adborth neu gŵyn. Rydym hefyd yn darparu manylion ynglŷn â sut gallant gysylltu â ni neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth.

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Wrth gyflawni ein rôl fel arolygiaeth, rydym yn casglu ac yn cael gwybodaeth bersonol am unigolion; hefyd, rydym yn casglu ac yn cael gwybodaeth bersonol am ymwelwyr â'n gwefan neu bobl sy'n anfon ymholiadau atom ni neu'n cysylltu â ni am wybodaeth. Rhai enghreifftiau o'r adegau pan gasglwn wybodaeth bersonol yw pan fyddwn yn:

- cynnal arolygiad, ymweliad interim neu weithgarwch dilynol ar ôl arolygiad neu ymweliad interim
- cynnal adolygiad thematig
- cynnal ymweliad neu alwad ffôn gyda darparwr neu awdurdod lleol
- cynnal arolwg
- cymryd rhan mewn arferion ymgynghori
- casglu data o ganlyniad i gŵynion neu ymholiadau sy'n cael eu codi gyda ni
- casglu data am ddefnyddwyr ein gwefan.

Rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni ein gorchwyl gyhoeddus fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, sy'n cynnwys y dibenion a restrir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Rhai enghreifftiau eraill o'r adegau pan fyddwn yn ei defnyddio (lle y bo'n briodol) yw pan fyddwn yn:

- defnyddio eich manylion cyswllt (enw, e-bost a rhif ffôn) i gysylltu â chi i gymryd rhan mewn ymchwil i adeiladu ein sail dystiolaeth. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil yn wirfoddol bob amser
- anfon gwybodaeth farchnata am ein gwasanaethau at bobl sy'n optio i mewn i'n rhestri tanysgrifio.
- cofnodi a rhannu fideos hyfforddiant ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i ddarparu adnoddau dysgu i'n rhanddeiliaid ac i eraill, yn amodol ar gytundeb y siaradwr/siaradwyr sy'n ymddangos ynddynt
- tynnu ffotograffau mewn digwyddiadau allanol a'u rhannu ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ein gweithgarwch, yn amodol ar gytundeb y mynychwyr sy'n ymddangos ynddynt

## I bwy mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol?

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i:

- unigolion yr ydym yn cael neu yn rhannu eu gwybodaeth bersonol yn ystod proses arolygu neu yn gysylltiedig â hynny, gan gynnwys:
    - staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant;
    - dysgwyr yn y sefydliad;
    - pobl sy'n llenwi holiadur arolygiad neu sy'n cyflenwi gwybodaeth sy'n berthnasol i arolygiad mewn ffordd arall;
- unigolion yr ydym yn cael neu'n rhannu'u gwybodaeth bersonol yn ystod adolygiad thematig neu fel rhan o ymgynghoriad;
- unigolion yr ydym yn cael neu'n rhannu'u gwybodaeth bersonol yn ystod ymweliad neu alwad ffôn neu sy'n ymwneud â ni fel arall;
- unigolion sy'n gwneud ymholiad, yn cwyno wrthym neu'n codi mater gyda ni;
- unigolion sy'n defnyddio ein gwefan;
- unigolion sydd wedi eu cynnwys yn nata Llywodraeth Cymru a gyflenwir i ni;
- unigolion sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i ni; ac
- unigolion sy'n mynychu ein digwyddiadau a'n hyfforddiant.

Yn yr adrannau isod, wrth gyfeirio at yr unigolion a restrir uchod, rydym yn defnyddio'r termau "chi" neu "eich".

## Beth yw ein hymagwedd at breifatrwydd?

Rydym yn cymryd eich preifatrwydd yn gwbl o ddifrif ac eisiau i chi deimlo'n hyderus fod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn ein dwylo ni.

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn unol â chyfraith diogelu data sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

O dan gyfraith diogelu data, pan fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn gweithredu fel rheolydd data. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y byddwn yn gwneud penderfyniadau am sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio a pham.

Isod, rydym yn crynhoi'r prif reolau sy'n berthnasol i ni o dan gyfraith diogelu data pan fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:

1. Rhaid i ni fod yn onest ynglŷn â sut rydym yn bwriadu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, a rhaid i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn deg. Mae darparu gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion (er enghraifft yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn) yn un agwedd ar ddefnyddio gwybodaeth bersonol yn deg.

2. Rhaid i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol dim ond os oes gennym sail gyfreithiol i wneud hynny o dan gyfraith diogelu data. Mae'r seiliau cyfreithiol hyn yn cynnwys ei bod yn angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth

arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni yn ôl y gyfraith, sy'n cynnwys pwerau o dan Ddeddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, a deddfau eraill sy'n berthnasol i addysgu, bob un ohonynt fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. Hefyd, gallem ddefnyddio gwybodaeth bersonol fel y gallwn gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol wrth weithredu busnes. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallem ddefnyddio gwybodaeth bersonol oherwydd bod gennym fudd dilys dros ei ddefnyddio.

3. Rhaid i ni ddefnyddio mathau penodol o wybodaeth bersonol, o'r enw Gwybodaeth Bersonol Categori Arbennig (sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'ch iechyd, eich tarddiad hiliol neu ethnig, neu'ch credoau crefyddol neu wleidyddol), dim ond os gallwn ni hefyd fodloni un o'r amodau ar gyfer prosesu'r math hwn o wybodaeth a amlinellir mewn cyfraith diogelu data, yn ychwanegol at y rhesymau ym mharagraff 2 uchod. Mae'r amodau hyn yn cynnwys y canlynol:

   a. rydych chi wedi rhoi eich cydsyniad eglur i ni ddefnyddio'r wybodaeth; neu
   b. mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau budd sylweddol y cyhoedd.

4. Caniateir i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â phobl eraill mewn rhai amgylchiadau yn unig, ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

5. Rhaid i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion penodol rydym wedi dweud wrthych chi amdanynt yn unig. Os ydym eisiau defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion eraill, mae angen i ni gysylltu â chi eto i ddweud wrthych am hyn.

6. Rhaid i ni beidio â dal mwy o wybodaeth bersonol na'r hyn sydd ei hangen at y dibenion rydym wedi dweud wrthych chi amdanynt, a rhaid i ni beidio â chadw eich gwybodaeth bersonol yn hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion hynny (caiff hyn ei adnabod fel y "cyfnod cadw"). Rhaid i ni hefyd waredu unrhyw wybodaeth nad oes ei hangen arnom mwyach yn ddiogel. Gellir cael rhagor o fanylion yn ein Polisi ar Gadw a Gwaredu Cofnodion.

7. Rhaid i ni sicrhau bod gennym fesurau diogeledd priodol ar waith i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol.

8. Rhaid i ni weithredu yn unol â'ch hawliau o dan gyfraith diogelu data.

9. Gan fod eich data personol yn cael ei storio ar ein seilwaith TG, a'i rannu gyda'n proseswyr data, gellir ei drosglwyddo a'i storio'n ddiogel y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Os felly, bydd yn destun amddiffyniad cyfreithiol cyfwerth naill ai drwy drosglwyddo data personol dim ond i wlad sydd â phenderfyniad digonolrwydd ar waith sy'n barnu bod y cyfryw wlad yn darparu lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer data personol neu drwy ddefnyddio Cymalau Cytundebol Safonol neu Gytundebau Trosglwyddo Data Rhyngwladol, sy'n rhoi i'r data personol a drosglwyddwyd yr un amddiffyniad ag sydd ganddo yn y DU.

10. Mae’n bwysig eich bod chi’n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw bolisi preifatrwydd arall neu bolisi prosesu teg y gallem eu darparu ar adegau penodol pan fyddwn yn casglu neu’n prosesu’ch gwybodaeth bersonol, fel eich bod yn gwbl ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio’ch gwybodaeth. Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ategu hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd eraill ac ni fwriedir iddo’u diystyru.

11. Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd. Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 31 Hydref 2024.

12. Mae’n bwysig bod y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas gyda ni.

## Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol?

Bydd y modd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt, pa mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol a manylion eraill yn dibynnu ar bwy ydych chi, a pham mae angen eich gwybodaeth bersonol arnom yn y lle cyntaf.

Yn yr adran hon, rydym yn darparu gwybodaeth benodol am breifatrwydd sy'n ymwneud â'r gwahanol gategorïau o unigolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol iddynt.

**Unigolion y ceir eu gwybodaeth bersonol yn ystod arolygiad craidd, ymweliad interim, gweithgarwch dilynol neu arolygiad monitro blynyddol, neu ymweliad cyswllt, neu yn gysylltiedig â hynny**

**Staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant**

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | Gall ein harolygwyr weld, mynd at, defnyddio neu gyfeirio at y wybodaeth bersonol ganlynol:<br><br>• Eich enw.<br>• Manylion yn gysylltiedig â'ch rôl (h.y. cymwysterau staff, cyfnod yn gwasanaethu, cofnodion hyfforddiant ar gyfer diogelu, gwiriadau i weld a yw cofnodion y GDG yn gyfredol).<br>• Eich manylion cyswllt yn y gwaith.<br>• |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad / ymweliad (fel taflenni arsylwi gwersi, gwybodaeth rheoli perfformiad).<br>• Wedi'i darparu gennych chi neu gan bobl eraill fel rhieni, disgyblion neu staff.<br>• Barn a sylwadau a gofnodwyd gennym.<br>• Wedi'i chynnwys mewn unrhyw adborth, cŵynion neu ymholiadau a godwyd gan drydydd partïon, fel rhieni neu gyfranogion eraill. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Gellir defnyddio gwybodaeth a gesglir yn ystod arolygiad neu ymweliad i gynnal yr arolygiad / ymweliad a gall lywio neu lunio rhan o'r sail dystiolaeth a ddefnyddir i gynhyrchu'n hadroddiadau arolygu neu nodiadau ymweliad. Fodd bynnag, ni fyddwn fyth yn rhyddhau gwybodaeth bersonol a gesglir at y dibenion hyn.<br><br>• Gallem ddefnyddio manylion cyswllt fel eich enw a'ch manylion cyswllt yn y gwaith, fel y'u hamlinellir yn nhabl y Rhanddeiliaid eraill isod. |
| **Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad â phroses arolygu ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. |

| | |
|---|---|
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Ni fydd cofnodion papur a ddarperir gan sefydliad addysg neu hyfforddiant yn cael eu cadw gan arolygwyr Estyn ar ôl yr arolygiad.<br>• Bydd unrhyw gofnodion neu nodiadau a wna arolygwyr, sy'n cynnwys manylion personol, yn cael eu dileu neu'u difrodi pan fyddant yn gadael y sefydliad.<br>• Caiff cofnodion electronig sy'n cael eu storio yn yr Ystafell Arolygu Rithwir eu dileu, yn unol â'n polisi cadw cofnodion. |

## Unigolion y ceir eu gwybodaeth bersonol yn ystod neu yn gysylltiedig ag adolygiad thematig neu ymweliad neu alwad ffôn

### Staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | Gall ein harolygwyr weld, mynd at, defnyddio neu gyfeirio at y wybodaeth bersonol ganlynol:<br><br>• Eich enw<br>• Manylion yn gysylltiedig â'ch rôl (h.y. cymwysterau staff, cyfnod yn gwasanaethu, cofnodion hyfforddiant ar gyfer diogelu, gwiriadau i weld a yw cofnodion y GDG yn gyfredol).<br>• Eich manylion cyswllt yn y gwaith.<br>• |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer (fel taflenni arsylwi gwersi, gwybodaeth rheoli perfformiad).<br>• Wedi'i darparu gennych chi neu gan bobl eraill fel rhieni, disgyblion neu staff, a gasglwyd trwy adolygiad thematig neu ymweliad neu alwad ffôn.<br>• Barn a sylwadau a gofnodwyd gennym. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Gellir defnyddio gwybodaeth a gesglir yn ystod gweithgaredd i gynnal y gweithgaredd a gall lywio neu lunio rhan o'r sail dystiolaeth a ddefnyddir i gynhyrchu adroddiadau thematig a nodiadau ymweliad. Fodd bynnag, ni fyddwn fyth yn rhyddhau gwybodaeth bersonol a gesglir at y dibenion hyn.<br><br>• Gallem ddefnyddio gwybodaeth gyswllt, fel eich enw a'ch manylion cyswllt yn y gwaith, yn unol â thabl y Rhanddeiliaid Eraill isod. |
| **Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad ag adolygiad thematig neu ymweliad neu alwad ffôn ymgysylltu ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni ac, yn achos Gwybodaeth Categori Arbennig, sy'n angenrheidiol hefyd er budd sylweddol y cyhoedd neu ar sail cyfreithiau Cymru a Lloegr. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. |

| | |
|---|---|
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Ni fydd cofnodion papur a ddarperir gan sefydliad addysg neu hyfforddiant yn cael eu cadw gan arolygwyr Estyn ar ôl yr arolygiad.<br>• Bydd unrhyw gofnodion neu nodiadau a wna arolygwyr, sy'n cynnwys manylion personol, yn cael eu dileu neu'u difrodi adeg cwblhau'r ymarfer.<br>• Bydd cofnodion electronig sy'n cael eu storio yn yr Ystafell Arolygu Rithwir yn cael eu dileu, yn unol â'n polisi cadw cofnodion. |

## Unigolion y ceir eu gwybodaeth yn ystod neu yn gysylltiedig ag ymgynghoriad

### Staff mewn sefydliad addysg neu hyfforddi

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | Gall ein harolygwyr weld, mynd at, defnyddio neu gyfeirio at y wybodaeth bersonol ganlynol:<br>• Eich enw<br>• Manylion yn gysylltiedig â'ch rôl (h.y. cymwysterau staff, cyfnod yn gwasanaethu, cofnodion hyfforddiant ar gyfer diogelu, gwiriadau i weld a yw cofnodion y GDG yn gyfredol).<br>• Eich manylion cyswllt yn y gwaith.<br>• Eich ymatebion a'ch barn. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer (fel taflenni arsylwi gwersi, gwybodaeth rheoli perfformiad).<br>• Wedi'i darparu gennych chi neu gan bobl eraill fel rhieni, disgyblion neu staff.<br>• Gellir casglu gwybodaeth trwy arolygon, grwpiau ffocws neu ymgysylltu unigol. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Gellir defnyddio gwybodaeth a gesglir yn ystod ymgynghoriad i gynnal yr ymgynghoriad a gall lywio neu lunio rhan o'r sail dystiolaeth a ddefnyddir i gynhyrchu ymatebion i ymgynghoriadau. Fodd bynnag, ni fyddwn fyth yn rhyddhau gwybodaeth bersonol a gesglir at y dibenion hyn.<br>• Gallem ddefnyddio gwybodaeth gyswllt, fel eich enw a'ch manylion cyswllt yn y gwaith, yn unol â thabl y Rhanddeiliaid Eraill isod |
| **Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad ag ymgynghoriad ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni ac, yn achos Gwybodaeth Categori Arbennig, sy'n angenrheidiol hefyd er budd sylweddol y cyhoedd neu ar sail cyfreithiau Cymru a Lloegr. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Bydd unrhyw gofnodion neu nodiadau a wneir gan arolygwyr, sy'n cynnwys manylion personol, yn cael eu dileu neu'u difrodi adeg cwblhau'r ymarfer, yn unol â'n polisi cadw cofnodion. |

## ‘Rhanddeiliaid Eraill *’ y ceir eu gwybodaeth bersonol wrth gyflawni ein busnes

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | • Eich enw<br>• Eich manylion cyswllt yn y gwaith<br>• Eich ymatebion a’ch barn |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Wedi’i darparu gennych chi neu gan aelodau eraill o’ch sefydliad.<br>• Wedi’i darparu gennych chi i ymateb i arolygon, grwpiau ffocws neu ymgysylltu unigol. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio’r wybodaeth bersonol?** | • Gwneud ymchwil marchnad, fel eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon neu ateb holiaduron<br>• Cynhyrchu adroddiadau<br>• Gwella ein gwasanaethau |
| **Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu rydym yn dibynnu arnynt** | • Y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnynt yn gysylltiedig â defnyddio eich gwybodaeth bersonol gennym yn gysylltiedig ag ymchwil marchnad yw ei fod yn angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.<br>• Pan na chaiff y wybodaeth hon ei phrosesu er budd y cyhoedd nac fel rhan o’n swyddogaeth swyddogol, gallem hefyd brosesu’r wybodaeth bersonol hon er ein budd dilys i’n galluogi i wella ein gwasanaethau. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw’r wybodaeth bersonol a pham?** | • Bydd manylion cyswllt ac ymatebion i arolygon a holiaduron yn cael eu cadw a’u dileu yn unol â’n Polisi Cadw Cofnodion.<br>• Bydd unrhyw adroddiadau a baratoir ar sail ymatebion neu safbwyntiau a gasglwyd yn cael eu hanonymeiddio i ddileu unrhyw ddata personol. |

* ‘Rhanddeiliaid eraill’ – cyfeiriwch at yr unigolion a restrir yn ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2024-2027

**Dysgwyr yn y sefydliad sy’n cael ymweliad neu yr ydym yn ymgynghori â nhw fel arall wrth gyflawni ein busnes**

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | Gall ein harolygwyr weld, mynd at, defnyddio neu gyfeirio at y wybodaeth bersonol ganlynol:<br><br>• Eich enw a’ch dyddiad geni.<br>• I ba ysgol/sefydliad rydych chi’n mynd.<br>• Gwybodaeth am eich blwyddyn a’ch dosbarth.<br>• Gwybodaeth rydych chi neu eraill yn ei darparu yn ystod y gweithgaredd.<br>• Cyfeiriad IP y cyfrifiadur a ddefnyddiwch i ateb holiadur.<br>• Bydd rhywfaint o’r wybodaeth y gofynnwn amdani mewn holiadur, fel gwybodaeth am rywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, gwybodaeth am hil neu ethnigrwydd, yn wybodaeth bersonol categori arbennig. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Wedi’i darparu gennych chi neu gan bobl eraill fel eich darparwr addysg sy'n cael yr arolygiad neu'r ymweliad, rhieni neu ddysgwyr eraill.<br>• Barn a sylwadau a gofnodwyd gennym. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio’r wybodaeth bersonol?** | • Bydd ein staff yn gallu mynd at yr ymatebion a gyflwynwch i’r holiadur. Mae mynediad at y wybodaeth yn cael ei reoli ar sail rolau a chyfrifoldebau’r staff.<br>• Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth i lunio adroddiad dadansoddi cryno a gedwir yn ein rhwydweithiau diogel neu’n Hystafell Arolygu Rithwir i arolygwyr ei ystyried. Gall hwn gynnwys dadansoddiadau neu grynodebau fesul grwpiau amrywiol.<br>• Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth bersonol at ddibenion ymchwil ac i gyflawni dadansoddiadau ystadegol i sefydlu tueddiadau.<br>• Defnyddir canlyniadau ein hymchwil a’n dadansoddiadau i lywio a chynghori’r arolygiaeth, ategu ein gwaith adolygiadau thematig ac adroddiad blynyddol, ac i ddarparu ymchwil gefndir a chyd-destun ar dueddiadau rhanbarthol i dimau arolygu.<br>• Ni fyddwn fyth yn rhyddhau gwybodaeth bersonol a gesglir at y dibenion hyn.<br><br>• Bydd ‘categorïau arbennig o ddata personol’ yn cael eu defnyddio fel hyn dim ond pan fydd cyfiawnhad rhesymol dros wneud hynny. Mae’n angenrheidiol i ni ddefnyddio’ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys gwybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad ag ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Cesglir pob categori arbennig o ddata personol yn unol â gofynion cyfreithiol o dan y |

| | |
|---|---|
| | Ddeddf Cydraddoldeb, y Ddeddf Addysg a dyletswyddau statudol arolygu. |
| **Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad â'n gwaith ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni ac, yn achos Gwybodaeth Categori Arbennig, sy'n angenrheidiol hefyd er budd sylweddol y cyhoedd neu ar sail cyfreithiau Cymru a Lloegr. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018, Rheoliadau Anghenion Dysgu ychwanegol (Cymru) 2021 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Ni fydd ein harolygwyr yn mynd â chofnodion papur a ddarperir gan sefydliad addysg neu hyfforddiant oddi yno ar ddiwedd yr ymarfer.<br>• Bydd unrhyw gofnodion neu nodiadau a wneir gan arolygwyr, sy'n cynnwys manylion personol, yn cael eu dileu neu'u difrodi adeg cwblhau'r ymarfer.<br>• Bydd cofnodion electronig sy'n cael eu storio yn yr Ystafell Arolygu Rithwir yn cael eu dileu, yn unol â'n polisi cadw cofnodion. |

## Pobl sy'n llenwi holiadur arolygu neu sy'n cyflenwi gwybodaeth sy'n berthnasol i un o'n gweithgareddau mewn ffordd arall

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | • Enw'r ysgol neu'r sefydliad perthnasol.<br>• Mae ein holiaduron arolygu yn ddienw, ond gall ymatebwyr ddatgelu gwybodaeth bersonol mewn unrhyw sylwadau neu farn y dewisant eu rhoi.<br>• Unrhyw wybodaeth bersonol a rowch amdanoch chi'ch hun neu eraill, fel eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt, ac ati.<br>• Cyfeiriad IP y cyfrifiadur a ddefnyddiwch i lenwi'r holiadur. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Rydym yn casglu'r wybodaeth hon pan fyddwch yn llenwi'r holiadur neu'n cysylltu â ni i roi gwybodaeth. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Bydd ein staff yn gallu mynd at yr ymatebion a gyflwynwch i'r holiadur. Mae mynediad at y wybodaeth yn cael ei reoli ar sail rolau a chyfrifoldebau'r staff.<br>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i lunio adroddiad dadansoddi cryno a gedwir yn ein rhwydweithiau diogel neu'n Hystafell Arolygu Rithwir i arolygwyr ei ystyried. Gall hwn gynnwys dadansoddiadau neu grynodebau fesul grwpiau amrywiol. |
| **Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad â'n gwaith ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni ac, yn achos Gwybodaeth Categori Arbennig, sy'n angenrheidiol hefyd er budd sylweddol y cyhoedd neu ar sail cyfreithiau Cymru a Lloegr. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Cedwir cofnodion sy'n dod i law ar ffurf holiaduron yn unol â'n polisi cadw cofnodion. |

**Unigolion sy'n gwneud ymholiad, yn rhoi adborth i ni, yn cwyno wrthym neu'n codi mater gyda ni**

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | • Eich enw.<br>• Eich manylion cyswllt (fel eich rhif ffôn neu'ch cyfeiriad e-bost).<br>• Manylion am eich ymholiad/adborth/cwyn/mater a all gynnwys data personol, fel enw a gwybodaeth cyflogaeth yr unigolyn y mae'r gŵyn yn ymwneud â hi. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Wedi'i darparu gennych chi pan fyddwch yn cysylltu â ni (e.e. trwy ein ffonio neu anfon neges e-bost atom). |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol i ddelio â'ch ymholiad/adborth/cwyn/mater.<br>• Mewn achosion o gwyno am rywun yn Estyn, byddwn fel arfer yn datgelu pwy ydych chi wrth yr unigolyn sy'n destun eich cwyn – ni fydd eich manylion yn cael eu datgelu ar y cyfan os bydd unrhyw gŵyn neu ymholiad yn gysylltiedig â darparwr neu unigolyn y tu allan i Estyn.<br>• Os byddwn yn ystyried bod y mater yn ymwneud â diogelu, byddwn yn delio â'r mater yn unol â'n polisi diogelu. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y mater yn cael ei rannu â'r awdurdod lleol perthnasol a/neu'r heddlu.<br>• Byddwn hefyd yn gwneud cofnod o'ch ymholiad/adborth/cwyn/mater at ddibenion gweinyddol mewnol ac i asesu lefel y gwasanaeth a ddarperir.<br>• Lle y bo'n briodol, gallem ddefnyddio eich manylion cyswllt yn unol â thabl y Rhanddeiliaid Eraill uchod. |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys Gwybodaeth Bersonol Categori Arbennig) i ddelio â'ch ymholiad/cwyn/mater ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni ac, yn achos Gwybodaeth Categori Arbennig, sy'n angenrheidiol hefyd er budd sylweddol y cyhoedd ar sail cyfreithiau Cymru a Lloegr. Gan mwyaf, mae hyn oherwydd y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.<br>• Os bydd eich ymholiad/adborth/cwyn/mater yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol categori sensitif neu arbennig, sef eich:<br>    • tarddiadau hiliol neu ethnig<br>    • barn wleidyddol<br>    • credoau crefyddol neu athronyddol<br>    • aelodaeth o undeb llafur |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li><ul>
<li>iechyd corfforol neu iechyd meddwl (gan gynnwys manylion am unrhyw anabledd hysbys)</li>
<li>cyfeiriadedd rhywiol</li>
<li>bod chi wedi cyflawni unrhyw drosedd, neu fod honiad eich bod chi wedi cyflawni trosedd</li>
</ul></li>
<li>Byddwn yn defnyddio’ch data personol categori arbennig ar sail y ffaith ei bod yn angenrheidiol am resymau budd sylweddol y cyhoedd, sef naill ai ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy ddeddfu neu’i bod yn angenrheidiol ar gyfer atal neu ddarganfod gweithredoedd anghyfreithlon, gan ddiogelu’r cyhoedd yn erbyn anonestrwydd, diogelu, atal twyll neu amheuaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian.</li>
<li>Byddwn yn defnyddio’ch gwybodaeth bersonol at ddibenion cadw cofnodion oherwydd ein cyfrifoldeb i sicrhau bod Estyn yn cael ei redeg yn effeithlon ac yn effeithiol, yr ydym yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Pa mor hir rydym yn cadw’r wybodaeth bersonol a pham?</td>
<td>
<ul>
<li>Rydym yn cadw cofnodion ymholiadau a materion a godwyd yn unol â’n polisi cadw cofnodion.</li>
<li>Fel arfer, rydym yn cadw cofnodion cwynion nad ydym yn eu hystyried yn faterion diogelu at ddibenion ystadegol mewnol (nid i’w datgelu y tu allan i Estyn).</li>
<li>Os byddwn yn ystyried bod eich cwyn yn ymwneud â mater diogelu, byddwn yn cadw cofnod o’r mater ar gyfer gwybodaeth ac adolygiad mewnol.</li>
<li>I gael rhagor o wybodaeth am gyfnodau cadw, gweler ein Polisi ar Gadw a Gwaredu Cofnodion a’n polisi diogelu</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

## Unigolion sy'n defnyddio ein gwefan

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | • Rydym yn ymrwymo i barchu eich preifatrwydd. Gallem gasglu gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys cyfeiriad protocol y rhyngrwyd (IP) a ddefnyddir i gysylltu'ch cyfrifiadur â'r rhyngrwyd a gwybodaeth arall, i sicrhau bod y wefan yn ymddangos ar eich porwr.<br>• Ac eithrio ar gyfer casglu'ch cyfeiriad IP ac ychydig ddata technegol uchod, rydym wedi creu ein gwefan fel nad oes rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth bersonol i ni er mwyn defnyddio ein safle, oni bai eich bod yn dewis yr opsiwn hwn.<br>• Os byddwch yn dewis rhoi gwybodaeth bersonol i ni (gan gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad e-bost) trwy gofrestru i dderbyn diweddariadau, bydd yn cael ei defnyddio i roi diweddariadau e-bost i chi ar y testunau yr ydych wedi gofyn amdanynt yn unig, a bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio yn unol â'r datganiad preifatrwydd hwn yn unig. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol os byddwch chi'n cofrestru gyda ni.<br>• Rydym yn casglu a storio gwybodaeth ddienw am y modd yr ydych yn defnyddio ein safle gan ddefnyddio cwcis (ffeiliau yr ydym yn eu hanfon i'ch cyfrifiadur neu ddyfais mynediad arall).<br>• Ffeiliau testun bach a osodir ar eich cyfrifiadur trwy wefannau yr ydych yn ymweld â nhw yw cwcis. Fe'u defnyddir yn helaeth er mwyn gwneud gwaith gwefannau yn effeithlon, ac i ddarparu gwybodaeth i berchnogion y safle yn ogystal.<br>• Rydym yn defnyddio cwcis i helpu casglu gwybodaeth ddienw am y modd y defnyddir ein gwefan. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i wella ein gwefan a darparu gwasanaeth gwell ar gyfer ein hymwelwyr. Yn ychwanegol, mae'r swyddogaeth cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gennym yn gosod cwcis.<br>• Mae rhagor o wybodaeth am y modd yr ydym yn defnyddio cwcis ar gael yn [https://www.estyn.llyw.cymru/datganiad-preifatrwydd](https://www.estyn.llyw.cymru/datganiad-preifatrwydd)<br>• Hefyd, rydym yn casglu data cyfanredol fel data ystadegol neu ddemograffig at unrhyw ddiben. Gallai Data Cyfanredol ddeillio o ddata personol, ond ni chaiff ei ystyried yn ddata personol o dan y gyfraith gan na fydd y data hwn yn datgelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol pwy ydych chi. Er enghraifft, gallem gasglu eich data defnyddio er mwyn cyfrifo canran y defnyddwyr sy'n defnyddio nodwedd benodol ar y wefan. Fodd bynnag, os ydych chi'n cyfuno neu'n cysylltu data cyfanredol â'ch gwybodaeth bersonol fel y gall ddatgelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol pwy ydych chi, byddwn yn trin y data cyfunol yn ddata personol, a ddefnyddir yn unol â'r polisi preifatrwydd hwn. |

| | |
|---|---|
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | Rydym yn defnyddio'r wybodaeth uchod i:<br>• deilwra ein cyfathrebu â chi fel y cewch wybodaeth sy'n berthnasol i chi ac i'ch diddordebau<br>• olrhain defnydd o'n gwefan<br>• helpu i ni wella ein gwefan yn barhaus trwy arfarnu effeithiolrwydd ein cyhoeddiadau a chynnwys ar-lein arall |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Rydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth uchod oherwydd ein buddiannau cyfiawn wrth sicrhau bod ein gwefan yn hawdd i'w defnyddio ac yn apelio at ein cwsmeriaid a darparu negeseuon e-bost â gwybodaeth y gofynnwyd amdani i bobl sy'n cofrestru. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Cedwir gwybodaeth a gasglwyd yn unol â'n polisi cadw cofnodion i helpu i ni arfarnu ein gwefan yn effeithiol. |
| **Canlyniadau peidio â darparu/ caniatáu i ni gael gwybodaeth bersonol** | • Os byddwch yn analluogi ein cwcis, byddwch yn gallu defnyddio ein gwefan gyfan o hyd. |

**Unigolion sydd wedi eu cynnwys yn nata Llywodraeth Cymru am ddisgyblion a gyflenwir i ni**

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | Rydym yn cael gwybodaeth sy'n ymwneud â dysgwyr gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r categorïau gwybodaeth a roddir i ni yn cynnwys:<br><br>• Dynodwyr disgyblion unigryw, nid ydym yn cael enwau.<br>• Gwybodaeth nodweddiadol fel rhyw, dyddiadau geni, unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, statws amddifadedd, hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd, iaith, medrau Cymraeg, codau post, ysgol a fynychwyd.<br>• Data deilliannau – deilliannau cwblhau dysgwyr, canlyniadau mewn asesiadau ac arholiadau allanol.<br>• Cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau dysgwyr.<br><br>Bydd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir, fel gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol, gwybodaeth am hil neu ethnigrwydd, yn wybodaeth bersonol categori sensitif neu arbennig. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru trwy safle trosglwyddo data diogel o dan Gytundebau Mynediad Data. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Rydym yn defnyddio dadansoddiad cyfanredol o'r wybodaeth i lywio ein harolygiadau.<br>• Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion ymchwil ac i gynnal dadansoddiad ystadegol i bennu tueddiadau ac ati.<br>• Bydd canlyniadau ein hymchwil a'n dadansoddiad yn cael eu defnyddio i hysbysu a chynghori'r arolygiaeth, cefnogi gwaith ein harolygiadau thematig a rhoi ymchwil gefndirol a chyd-destun i dimau arolygu ar dueddiadau rhanbarthol. |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'r wybodaeth data personol categori personol ac arbennig i ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Mae hyn yn gyffredinol gan y bydd angen i ni brosesu'ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. |

| | |
|---|---|
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Rydym yn cadw'r cofnodion data yn unol â'n polisi cadw cofnodion a'r amodau penodol ym mhob Cytundeb Mynediad Data sy'n ymwneud â'r darn penodol o wybodaeth. |

**Unigolion sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i ni**

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | Cyn dyfarnu contract/gwneud cytundeb â chyflenwr.<br><br>Caffael i gyd:<br>• Eich enw a'ch manylion cyswllt<br>• Gwybodaeth ar gyfer arfarnu meini prawf dethol, e.e. arbenigedd, medrau technegol ac ieithoedd, profiad proffesiynol, gan gynnwys manylion am gyflogaeth bresennol a blaenorol<br><br>Wrth gaffael gwasanaethau Arolygwyr Ychwanegol, byddwn hefyd yn defnyddio'r canlynol:<br>• Manylion am yr ardystio gan y GDG, arbenigeddau pwnc ac iaith, hanes hyfforddiant<br>• Cyfraddau dyddiol arolygu a'r gallu i arolygu; ynghyd â hepgoriadau ac argaeledd<br>• Gweithgarwch arolygu sydd ar ddod, diweddar a hanesyddol gyda hanes graddau<br>• Manylion terfyn ac adnewyddu cofrestriad ar gyfer arolygwyr arweiniol ysgolion cynradd a lleoliadau meithrin.<br><br>Wedi i gyflenwr dderbyn y contract/wrth ddechrau cytundeb i gyflenwi:<br>• Manylion eich cyfrif banc |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Wedi'i darparu gennych chi pan fyddwch yn cytuno i ddarparu nwyddau neu wasanaethau i ni neu pan fyddwch yn rhoi dyfynbris neu gynnig tendr i ni. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol?** | • Wrth arfarnu dyfynbrisiau/cynigion tendr, gwneud cytundeb â chi, cysylltu â chi, gweinyddu'r cytundeb ar gyfer nwyddau/ gwasanaethau, a gwneud taliad i chi. |
| **Y seiliau cyfreithiol yr** | • Bydd yn angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol i wneud cytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaethau, ar gyfer gohebiaeth mewn perthynas â'r nwyddau neu'r gwasanaethau a materion cysylltiedig, a thalu am nwyddau neu wasanaethau |

| | |
|---|---|
| **ydym yn dibynnu arnynt** | a ddarperir, naill ai (1) at ddibenion cymryd camau cyn dechrau contract â chi ac ar gyfer cyflawni'r contract rhyngom ni, neu (2) a gyflawnir er budd dilys pryniadau, nwyddau a gwasanaethau er mwyn gweithredu ein busnes a chyflawni ein swyddogaethau.<br><br>• Pan fyddwn yn caffael Gwasanaethau Arolygydd Ychwanegol, gellir cynnal gwiriadau'r GDG fel gofyniad cyfreithiol. Mae'n angenrheidiol i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (gan gynnwys gwybodaeth a all fod yn Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig) mewn cysylltiad â'n gwaith ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw'r wybodaeth bersonol a pham?** | • Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am hyd y contract yn unol â'n hamserlen gadw. |
| **Canlyniadau peidio â darparu/ caniatáu i ni gael gwybodaeth bersonol** | • Heb eich gwybodaeth bersonol, ni fyddwn yn gallu ymgysylltu â chi i ddarparu gwasanaethau i ni ac ni fyddwn yn gallu gwneud taliadau i chi. |

| **Unigolion sy’n mynychu ein digwyddiadau a’n hyfforddiant** |
|---|

| | |
|---|---|
| **Pa wybodaeth bersonol byddwn yn ei defnyddio?** | • Eich enw.<br>• Eich manylion cyswllt.<br>• Y sefydliad yr ydych yn gweithio iddo a’ch swydd ynddo.<br>• Eich gofynion deietegol (os o gwbl).<br>• Eich gofynion iaith.<br>• Eich gofynion mynediad (os o gwbl).<br>• Manylion banc ar gyfer talu treuliau (lle bo angen).<br>• Dyddiad geni, hanes cyflogaeth, cymwysterau, llythrennedd cyfrifiadurol os ydych chi’n gwneud cais i hyfforddi’n arolygydd. |
| **Sut byddwn yn cael y wybodaeth bersonol?** | • Wedi’i darparu gennych chi pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer digwyddiad trwy ein system archebu ar gyfer digwyddiadau.<br>• Wedi’i darparu gennych chi pan fyddwch yn llenwi ffurflenni ar gyfer y broses hawlio Teithio a Chynhaliaeth. |
| **At ba ddibenion byddwn yn defnyddio’r wybodaeth bersonol?** | • I weld cymhwysedd i hyfforddi’n arolygydd.<br>• I roi gwybodaeth am y digwyddiad i chi.<br>• I sicrhau darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion deietegol, iaith a mynediad.<br>• I’n galluogi i ni gynnal y digwyddiad.<br>• I gasglu a chynnal gwybodaeth ar gyfer ein systemau dosbarthu mewnol |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt** | • Mae’n angenrheidiol i ni ddefnyddio’r wybodaeth bersonol (heblaw unrhyw wybodaeth bersonol categori arbennig) ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Mae hyn fel arfer gan y bydd angen i ni brosesu’ch data personol ar gyfer cyflawni swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy statud, sy’n cynnwys (ond nid yw’n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y’u diwygiwyd o bryd i’w gilydd.<br>• Pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol categori arbennig fel gwybodaeth ynghylch iechyd neu hil sy’n amlwg oddi wrth eich gofynion deietegol neu iaith neu fynediad, bydd hyn yn seiliedig ar eich caniatâd penodol. |
| **Pa mor hir rydym yn cadw’r wybodaeth bersonol a pham?** | • Rydym yn cadw’ch gwybodaeth bersonol fel rhan o gofnod y digwyddiad yn unol â’n polisi cadw. |

## Pryd byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol?

Yn ogystal â'r dibenion a amlinellir uchod, gallem hefyd ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol yn unol â'r adran hon. Yn ei hanfod, mae'r term "marchnata uniongyrchol" yn golygu cyfeirio deunydd marchnata, sy'n hyrwyddo neu'n hysbysebu ein gwasanaethau ac sydd wedi'u cyfeirio at unigolyn penodol.

I sicrhau cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data a'r rheolau penodol sy'n ymwneud â marchnata uniongyrchol, ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ond i ddweud wrthych am ein digwyddiadau diweddaraf yr ydym yn credu y gallent fod o ddiddordeb i chi yn yr amgylchiadau a amlinellir isod:

| | |
|---|---|
| **Marchnata uniongyrchol trwy'r e-bost, negeseuon testun neu fathau eraill o gyfathrebu electronig** | Byddwn yn cysylltu â chi yn y modd hwn dim ond os ydych chi wedi:<br><br>• rhoi eich cydsyniad pendant i wneud hynny<br>• holi o'r blaen am un o'n digwyddiadau neu wedi mynychu un o'n digwyddiadau yn y gorffennol ac rydym eisiau dweud wrthych am ddigwyddiad tebyg a allai fod o ddiddordeb i chi ac nid ydych wedi optio allan o dderbyn gohebiaeth o'r fath |

Bydd ein seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu o'r fath o dan gyfraith diogelu data naill ai trwy eich cydsyniad chi neu'n dibynnu ar ymgymryd â thasg er budd y cyhoedd neu ein buddiannau dilys wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r cyhoedd.

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol oni bai a hyd nes y byddwch yn ein hysbysu nad ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth farchnata uniongyrchol gennym mwyach.  Gallwch ofyn i ni roi'r gorau i anfon deunydd marchnata uniongyrchol atoch ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r ddolen datdanysgrifio ar ddiwedd ein negeseuon e-bost.

## Pryd byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â phobl eraill?

Weithiau, bydd angen i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol â phobl eraill. Mae'r adran hon yn amlinellu manylion ynghylch â phwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol a pham. Mae hefyd yn dweud wrthych am ein sail gyfreithiol dros wneud hynny o dan gyfraith diogelu data a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol.

### Ein partneriaid gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Pwy yw ein partneriaid gwasanaeth?** | Mae ein partneriaid gwasanaeth yn cynnwys:<br><br>• cludwyr a chyflenwyr gwasanaethau dosbarthu eraill<br>• darparwyr gwasanaethau TG i Estyn (gweler isod o dan Ddarparwyr gwasanaethau technoleg gwybodaeth)<br>• darparwyr ein gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig<br>• darparwyr gwasanaethau teithio a llety<br>• darparwyr gwasanaethau ymchwil marchnad<br>• cwmni ymbarél y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd<br><br>Nid ydym wedi cynnwys enwau ein partneriaid gwasanaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn gan y byddant yn newid o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'n darparwyr gwasanaeth presennol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a amlinellir ar ddiwedd y polisi hwn. |
| **Pam mae angen i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol â nhw** | • Rydym yn defnyddio'r partneriaid gwasanaeth a ddisgrifir uchod i'n galluogi i wneud ein gwaith. |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt wrth rannu'ch gwybodaeth bersonol** | • Mae'n angenrheidiol rhannu'ch data personol â chyflenwyr ac isgontractwyr ar gyfer ymgymryd â'n tasgau er budd y cyhoedd. |
| **Pa ragofalon rydym yn eu cymryd?** | • Rydym yn gwneud contractau â'n darparwyr gwasanaeth sy'n gofyn iddynt roi mesurau diogeledd ar waith ac sy'n cyfyngu ar eu defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. |

**Sefydliadau sy'n gysylltiedig â'n gwaith**

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth bellach** | • Rydym yn cydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Medr, ysgolion, Cyngor y Gweithlu Addysg, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| **Pam mae angen i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol â'n Grŵp?** | • O bryd i'w gilydd, bydd angen i ni rannu gwybodaeth bersonol benodol â chyrff cyhoeddus eraill lle mae hyn yn angenrheidiol i gyflawni ein swyddogaethau statudol neu i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio neu er budd y cyhoedd. |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt wrth rannu'ch gwybodaeth bersonol** | • Fel arfer, rhennir data personol yn yr amgylchiadau hyn gan fod hyn yn angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.<br>• Pan fydd hyn yn ymwneud â gwybodaeth bersonol categori arbennig, bydd ein seiliau cyfreithiol ar gyfer rhannu'r wybodaeth fel arfer oherwydd bod hynny'n cael ei wneud er budd sylweddol y cyhoedd naill ai ar gyfer arfer swyddogaeth a gyflwynwyd i ni trwy ddeddf neu mae'n angenrheidiol ar gyfer atal neu ddarganfod gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd yn erbyn anonestrwydd, diogelu, atal twyll neu amheuaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian. |
| **Pa ragofalon rydym yn eu cymryd?** | • Bydd gan y cyrff cyhoeddus dan sylw fesurau diogeledd priodol i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol. |

**Darparwyr gwasanaethau technoleg gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| **Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu'ch gwybodaeth bersonol?** | • Rydym yn defnyddio cyflenwyr cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth mewn cysylltiad â chyflenwi, cynnal a/neu wella ein rhwydwaith TG a chreu, datblygu, lletya a chynnal ein gwefan.<br>• Mae gennym gontractau ar waith gyda'n cyflenwyr. Mae hyn yn golygu na allant wneud unrhyw beth â'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny. Ni fyddant yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad heblaw ni.<br>• Nid ydym wedi cynnwys enwau ein darparwyr TG yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn gan y byddant yn newid o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw rai o'n darparwyr TG presennol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y polisi hwn. |
| **Y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt wrth rannu'ch gwybodaeth bersonol** | • Mae angen rhannu eich data personol gyda'n cyflenwyr a'n hisgontractwyr TG i ymgymryd â'n tasgau er budd y cyhoedd.<br>• I'r graddau ag y bo'n defnydd o Wasanaethau TG y tu hwnt i gwmpas ein gwaith er budd y cyhoedd, rydym yn dibynnu ar ein buddiannau dilys wrth sicrhau bod ein sefydliad yn gallu gweithredu'n briodol ac yn effeithlon a bod ein rhwydwaith TG yn ddiogel. |
| **Pa ragofalon rydym yn eu cymryd?** | • Rydym yn gwneud contractau â'n darparwyr TG sy'n gofyn iddynt roi mesurau diogeledd priodol ar waith ac sy'n cyfyngu ar eu defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. |

**Trydydd partïon eraill**

Gallai fod angen i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol â phobl eraill yn yr amgylchiadau canlynol hefyd:

| | |
|---|---|
| **Gofynion cyfreithiol neu reoleiddio** | • O bryd i'w gilydd, gallai fod gofyn i ni ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol i sefydliadau fel y llysoedd neu'r heddlu i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol yr ydym yn ymrwymedig iddynt a/neu i atal twyll neu drosedd. |
| **Diogelu ein busnes** | • O bryd i'w gilydd, gallai fod angen i ni ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol mewn cysylltiad â chamau y mae angen i ni eu cymryd i ddiogelu ein buddiannau busnes neu'n heiddo. |
| **Cyngor proffesiynol a chamau cyfreithiol** | • Gallai fod angen i ni ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol i'n hymgynghorwyr proffesiynol mewn cysylltiad â darparu cyngor proffesiynol ganddyn nhw a/neu sefydlu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol. |

## Sut rydym yn cadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel?

Rydym yn cymryd camau amrywiol i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol tra bydd yn ein meddiant, gan gynnwys:

- Rhoi mesurau diogeledd priodol ar waith i gyfyngu ar fynediad at ein hisadeiledd TG yn fewnol a thrwy fynediad o bell
- Rhoi polisïau diogeledd data mewnol a hyfforddiant ar waith ar gyfer aelodau o staff mewn perthynas â pholisïau o'r fath
- Mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant Diogelwch a Diogelu Data gorfodol y gwasanaeth sifil yn rheolaidd
- Nodiadau atgoffa rheolaidd at aelodau o'r staff am eu cyfrifoldebau wrth brosesu, defnyddio neu gael mynediad at ddata personol
- Adolygiadau rheolaidd o'n mesurau diogeledd data gan ein darparwr gwasanaethau TG
- Sicrwydd gan ein cyflenwyr gwasanaethau TG dan gontract a allai ymdrin â'ch data personol fod ganddynt systemau cadarn sy'n cadw eich data yn ddiogel
- Cadarnhad gan ein darparwyr gwasanaeth TG fod data yn cael ei gasglu a'i brosesu'n gyfreithlon a heb dorri hawliau a rhyddid unigolyn
- Ymarferion rheolaidd i adfer rhag trychineb i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i ymosodiad seiber neu ddigwyddiad yn ymwneud â diogeledd data yn gyflym, yn effeithiol a heb berygl torri amodau diogelu data
- Cynnal Achrediad Hanfodion Seiber Plws Blynyddol i warchod yn erbyn y bygythiadau seiber mwyaf cyffredin
- Rhoi diweddariadau meddalwedd ar waith i ddiogelu yn erbyn meddalwedd wystlo ac ymosodiadau seiber eraill
- Amgryptio dyfeisiau cludadwy sy'n cynnwys unrhyw ddata personol
- Polisïau mynediad trylwyr ar ffonau symudol i atal mynediad anawdurdodedig

## Pa hawliau sydd gennych chi o dan gyfraith diogelu data?

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych nifer o hawliau gwahanol sy'n ymwneud â defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r rhestr isod yn cynnwys crynodeb o'r hawliau hynny a'n rhwymedigaethau ni. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am eich hawliau a'ch rhwymedigaethau ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef https://ico.org.uk/.

1 **Hawl i gael eich hysbysu** – Mae gan unigolion yr hawl i gael eu hysbysu am gasglu a defnyddio eu data personol. Rhaid i ni roi gwybodaeth i unigolion, gan gynnwys: ein dibenion ar gyfer prosesu eu data personol, ein cyfnodau cadw ar gyfer y data personol hwnnw, ac â phwy fydd y data'n cael ei rannu.

2 **Hawl mynediad** – Mae hon yn hawl i gael mynediad at eich data personol a gwybodaeth atodol amrywiol. Rhaid i ni roi copi o'ch gwybodaeth bersonol i chi a'r wybodaeth atodol arall heb oedi gormodol ac, mewn unrhyw ddigwyddiad, o fewn 1 mis i dderbyn eich cais. Ni allwn godi tâl arnoch am wneud hynny ac eithrio mewn amgylchiadau penodol (er enghraifft, pan fyddwch yn gofyn am ragor o gopïau o'ch gwybodaeth bersonol).

3 **Hawl i gael data personol wedi'i gywiro** – Mae hon yn hawl i gael eich gwybodaeth bersonol wedi'i chywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Rhaid i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn heb oedi gormodol ac, mewn unrhyw ddigwyddiad, o fewn 1 mis i dderbyn eich cais. Os ydym wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i bobl eraill, rhaid i ni (yn amodol ar eithriadau penodol) gysylltu â'r derbynwyr i roi gwybod iddynt fod angen cywiro'ch gwybodaeth bersonol.

4 **Hawl i ddileu** – Mae hon yn hawl i gael eich gwybodaeth bersonol wedi'i dileu neu'i gwaredu. Mae'r hawl hon yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau yn unig (er enghraifft, pan nad oes angen y wybodaeth bersonol arnom mwyach at y dibenion y casglwyd y wybodaeth ar ei chyfer). Mae gennym yr hawl i wrthod dileu neu waredu'ch data personol mewn amgylchiadau penodol. Os yw'r hawl hon yn berthnasol, rhaid i ni ddileu neu waredu'ch gwybodaeth bersonol heb oedi gormodol ac, mewn unrhyw ddigwyddiad, o fewn 1 mis i dderbyn eich cais. Os ydym wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i bobl eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r derbynwyr i roi gwybod iddynt fod rhaid dileu eich gwybodaeth bersonol.

5 **Hawl i gludadwyedd data** – Mae hon yn hawl i gael ac ailddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at eich dibenion eich hun. Mae'n cynnwys hawl i ofyn bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i sefydliad arall (lle bo'n dechnegol bosibl). Mae'r hawl hon yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig yn unig. Os yw'r hawl hon yn berthnasol, rhaid i ni ddarparu'ch gwybodaeth bersonol i chi mewn ffurf strwythuredig, gyffredin a darllenadwy gan beiriant. Eto, rhaid i ni weithredu heb oedi gormodol ac, mewn unrhyw ddigwyddiad, o fewn 1 mis i dderbyn eich cais. Ni allwn godi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.

6 **Hawl i wrthwynebu** – Mae hon yn hawl i wrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau penodol yn unig. Gallwch ddefnyddio'r hawl hon i herio ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol ar sail ein buddiannau cyfiawn neu ble mae angen prosesu gwybodaeth ar gyfer ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Gallwch ddefnyddio'r hawl hon hefyd i wrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol. Os ydych yn gwrthwynebu ein bod yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol, rhaid i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn y modd hwn cyn gynted ag y byddwn yn derbyn eich cais. Os byddwch yn gwrthwynebu i ffyrdd eraill o ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol, bydd p'un a oes rhaid i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

7 **Hawl i wrthwynebu gwneud penderfyniad awtomataidd** – Mae hon yn hawl na fydd yn amodol ar benderfyniad a wneir yn gyfan gwbl ar sail prosesu eich gwybodaeth bersonol yn awtomataidd lle bydd y penderfyniad dan sylw yn cael effaith gyfreithiol arnoch chi neu effaith arwyddocaol debyg. Pan wneir penderfyniad o'r fath, rhaid eich hysbysu am y ffaith honno cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol. Wedyn, mae gennych 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad i ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried neu fod penderfyniad yn cael ei wneud nad yw'n gyfan gwbl seiliedig ar brosesu awtomataidd. Rhaid cydymffurfio â'ch cais o fewn 21 diwrnod.

**8** **Hawl i gyfyngu ar brosesu** – Mae hon yn hawl i 'rwystro' neu atal prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon yn berthnasol mewn amgylchiadau amrywiol, gan gynnwys ble rydych yn herio cywirdeb eich gwybodaeth. Os bydd gofyn i ni gyfyngu ar brosesu'ch gwybodaeth bersonol, byddwn yn gallu ei storio ond ddim ei defnyddio. Gallwn ni gadw dim ond digon o wybodaeth amdanoch i sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol. Os ydym wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i bobl eraill, rhaid i ni (yn amodol ar eithriadau penodol) gysylltu i ddweud wrthynt am y cyfyngiad ar ei defnyddio.

Os byddwch yn dymuno arfer unrhyw un o'ch hawliau, gallwch wneud cais trwy gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data. Gellir cael manylion isod.

Os byddwch yn gofyn am arfer unrhyw un o'ch hawliau, mae gennym hawl i ofyn i chi roi unrhyw wybodaeth i ni a allai fod yn angenrheidiol i gadarnhau pwy ydych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein Polisi Mynediad at Wybodaeth.

## Eich hawl i dynnu cydsyniad yn ôl

Os ydych chi wedi rhoi eich cydsyniad i ni ddefnyddio unrhyw ddarn o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hynny, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data, y mae'r manylion i'w gweld isod.

## Sut gallwch chi gysylltu â ni?

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data i oruchwylio ein cydymffurfiad â chyfraith diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Gwelir y manylion isod. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, y modd yr ydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol neu os hoffech wneud cwyn, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data.

Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad post** | Swyddog Diogelu Data<br>Estyn<br>Llys Angor<br>Heol Keen<br>Caerdydd<br>CF24 5JW |
| **Cyfeiriad e-bost** | Ymholiadau@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif ffôn** | 029 2044 6446 |

## Hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os na allwn ddelio â chwyn i'ch boddhad neu os ydych yn anhapus â'r ffordd yr ydym yn defnyddio'ch data personol, mae gennych chi hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545745

E-bost: casework@ico.org.uk